RHIFYN 1
Ebrill 2016

AGORA

Rhifyn 1 Ebrill 2016

Cylchgrawn Misol
Cristnogaeth 21

Gair o gyflwyniad

Mae uniongredded wedi llethu a llurgunio crefyddau ar hyd y canrifoedd. Bu hynny yn arbennig o amlwg o fewn Cristnogaeth. Hyd yn oed yn ystod y ganrif ddiwethaf byddai heddlu athrawiaeth yn gwylio a gwrando, gydag eneidiau didwyll ac ymroddedig yn ein plith yng Nghymru yn arswydo rhag troseddu yn erbyn y 'canonau' oesol. O dro i dro clywem rai pregethwyr ac athrawon ysgol Sul yn mentro gwthio'r ffiniau, ond caent eu hystyried fel eithriadau, yn feddyliau ar ddisberod, neu'n hereticiaid haerllug oedd yn meiddio herio ffydd y tadau eglwysig.

Bellach gwelwn fod eu gweledigaethau hwy yn perthyn i dras anrhydeddus a fu fel cydwybod gyson yn natblygiad yr eglwys Gristnogol, ac yn rhan o'r goleuo newydd sy'n cerdded byd crefydd yr unfed ganrif ar hugain. A'r hyn a'n galluogodd i sylweddoli hynny yw'r cyfryngau torfol digidol. Felly, pan ddaeth cwmni ohonom at ein gilydd i hybu'r weledigaeth hon yn y Gymru Gymraeg, roedd hi'n naturiol y byddem ninnau'n defnyddio'r dulliau hyn gyda'n bwletinau. Cam pellach yn awr yw cyhoeddi cyfnodolyn ar y We, a hyderwn y bydd *Agora*, o dan olygyddiaeth Enid, yn offeryn effeithiol yng ngwaith Teyrnas Dduw.

Diolchwn i'r unigolion amrywiol sydd wedi cynorthwyo yn y gwaith gydag ymroddiad, ac i'r cannoedd sydd wedi ymateb i'r gweithgarwch hwn. Gwerthfawrogwyd hefyd gwmnïaeth y niferoedd a ddaeth i gydfwynhau ambell encil a chynhadledd a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd llwyddiant y cyfarfodydd hynny a'u hawyrgylch hynaws, gobeithiwn barhau i'w trefnu'n flynyddol i'r dyfodol.

Yr hyn sydd yn ein symbylu yw'r argyhoeddiad mai Iesu ddylai ein harwain. Nid Iesu athrawiaethau'r eglwys, nid Iesu'r gwisgoedd o draddodiadau a gafodd eu gwau amdano, ond yr Iesu sy'n heriol ei fywyd a'i ddysgeidiaeth, ac yn heriol ei farw: yr Iesu a ddatguddiodd, drwy ei gariad anfeidrol, y Duw sy'n dad i ni.

John Gwilym Jones
Cadeirydd Cristnogaeth21



BYW'R CWESTIYNAU

Mae gennym ychydig gopïau o'r llyfryn *Byw'r Cwestiynau* ar ôl o hyd. Ers ei chyhoeddi, bu'r gyfrol yn hynod ddefnyddiol fel arweiniad i gylchoedd trafod mewn gwahanol eglwysi ledled Cymru, ac fe hoffem gynnig rhai o'r copïau sydd ar ôl yn rhad ac am ddim i'r diben hwn. Croeso i unrhyw eglwys neu grŵp gysylltu â ni ac fe gewch hyd at 6 chopi dim ond i chi dalu'r cludiant. Anfonwch neges at cristnogaeth21@gmail.com neu 07900 491257.

Bwrdd Golygyddol:
Enid Morgan
Pryderi Llwyd Jones
Marian Beech Hughes,
Emlyn Davies

Cynnwys

2	Gair o gyflwyniad	*John Gwilym Jones*
3	Pam Agora?	*Enid R. Morgan*
4	Tir Neb: Ysbrydoledd a Chreadigrwydd	*Aled Jones Williams*
5	Tameidiau Tomosaidd	*Gethin Abraham-Williams*
6	Chwilio'r Ysgrythurau: Y Daith i Emaus	*Enid R. Morgan*
7	Hanes Cristnogaeth 21	
8	Storm ar Fôr Galilea: Myfyrdod	*Emlyn Davies*
10	Duw yw'r Broblem	
13	Third Way	*Pryderi Llwyd Jones*
14	Hanes Cyffrous y Cwm	*Gerald Morgan*
15	Codi Gwên	
16	Trais a Thynerwch: Sgwrs â Jerry Hunter	
18	Gwahoddiad i gyfrannu	
19	Manion	

Pam Agora?

Man agored, medd y geiriadur; man cyfarfod yn yr iaith Roeg, y man lle'r aeth Paul ati i geisio mynegi'r newyddion da mewn iaith seciwlar, sef iaith ei gyfnod. Mae'n disgrifio'n dda amcan y fenter hon i greu cylchgrawn digidol Cymraeg fydd o ddiddordeb a bendith i bawb y mae enw Iesu yn bwysig iddyn nhw (er bod capel ac eglwys yn eu digalonni). Y gobaith yw y daw yn fan agored a diogel i bobl holi a thrafod, man lle y gellir anghytuno heb ddigio, heb ymosod, heb gondemnio, ac yn sicr heb sarhau na bwrw neb allan. Yn yr hen Agora yr ymdrechodd Paul i gyfathrebu â chymdeithas amlddiwylliannol Athen, lle roedd yn bosibl i bawb a phob un fynegi ei syniadau a chael gwrandawiad.

O newid pwyslais o'r sill cyntaf i'r ail, mae ystyr pellach i Agora sydd hefyd yn ferf orchmynnol Gymraeg. Agora ddrws i fyd sy'n newid yn garlamus, agor meddyliau i ddulliau mynegiant newydd, ac agor calonnau i'n profiadau tra amrywiol ni, Gymry Cymraeg a'n cyfeillion heddiw. Mae fel gyrru car: mynd ymlaen, ond gan gadw llygad ar y drych sy'n dangos beth ddigwyddodd y tu cefn i ni.

Rydyn ni'n mentro lansio 'cylchgrawn digidol' ar wefan Cristnogaeth21 gan obeithio y gallwn ddatblygu a gwneud y gorau o'r posibiliadau technegol newydd sy'n agored i ni.

Yn ei erthygl ef, mae Aled Jones Williams yn rhoi cip i ni ar y gymdeithas sy'n bod yng Nghymru heddi, Cymru dra gwahanol i'r Gymru draddodiadol fytholegol a fu'n llawer iawn mwy amrywiol ei haelodau nag yr oedd y myth yn caniatáu. A ninnau Gristnogion wedi colli'r hawl i orchymyn a deddfu, be wnawn ni i godi amgenach pabell pan yw'r cyfundrefnau eglwysig yn glynu wrth ieithwedd y bymthegfed ganrif a ninnau, er gwell neu er gwaeth, yn meddwl sut y gall Iesu gael ei glywed un ganrif ar hugain ers ei groeshoelio gan rymoedd crefydd ac ymerodraeth?

Tir Neb: Ysbrydoledd a Chreadigrwydd

Aled Jones Williams

(Fy 'rhagarweiniad' i sgwrs a roddais ar fy ngweithiau fy hun yn Encil C21 yn Nhrefeca, Medi 2015, yw'r llith ganlynol.)

Mae 'ysbrydoledd' a 'chreadigrwydd' yn drybeilig o anodd i'w diffinio. Y mae yna rywbeth yn gyfleus niwlog amdanyn nhw, yn enwedig felly 'ysbrydoledd'.

Mae hi'n weddol hawdd diffinio 'crefydd'. Ar un wedd, medrir dweud mai diben y crefyddol yw eich amddiffyn rhag yr ysbrydol. Trwy systemau, credoau, ffurf-wasanaethau, offeiriadaeth a mathau eraill o weinidogaeth – paraffernalia'r 'crefyddol' – fe'n diogelir rhag anarchiaeth yr 'ysbrydol', y mae ei 'hanfod' i'w ganfod yn y gwynt na ŵyr neb o ba le y daw nac i ba le yr â. Gwneud 'Duw' yn saff yw prif swyddogaeth 'crefydd': 'ei' gaethiwo mewn dogmâu a 'gwisgoedd' derbyniol eraill. Mae 'ysbrydoledd' yn llawer rhy beryglus i ni. Oherwydd hynny, mae'n debyg, y croeshoeliwyd Iesu. Fe ddewiswn y 'crefyddol' yn wastad ar draul yr 'ysbrydol'. Mae 'enwadau' – er eu truenused, erbyn hyn – yn llawer saffach lle nag 'anialwch': cartref yr 'ysbrydol' tryblithgar. Yn y bôn, wnaeth yr eglwys erioed licio 'yr ysbryd glân'.

Blerwch Meddyliol

Ond am yr 'ysbrydol' ei hun, mae'r gair yn gyfleus niwlog. Mae pawb yn meddwl eu bod nhw'n meddwl eu bod nhw'n gwybod be' mae o'n ei feddwl. Brawddeg flêr iawn oedd honna, wrth gwrs, i ddarlunio'r blerwch meddyliol sydd ymhlyg yn y gair 'ysbrydoledd'. Mae hynny'n gyfoes gyfleus. Mewn gwlad – Cymru – sydd ar y cyfan yn wrth-grefyddol bellach, ddywedwn i, mae'r 'ysbrydoledd' niwlog yn bownd o ddod fwyfwy i'r amlwg ac yn fwy derbyniol. Mae hi'n haws dweud, ac yn well dweud erbyn hyn: 'Tydw i ddim yn grefyddol ond mi rydw i'n ysbrydol.' Beth yw gwir ystyr hynny, sy'n fater arall, wrth gwrs! Ond mi rydan ni rywsut neu'i gilydd yn rhyw lun ar ddeall hynny hefyd. Mae yna ryw siapiau yn y niwl: 'Duw' ydy hwnna, d'wch, 'ta coeden ydy o?

Amwysedd

Mae cael yr amwysedd a'r amhendantrwydd yna yn siwtio llawer iawn ohonom ni. Dyna lle mae niferoedd bellach: myfi yn eu plith. A does yna 'run blwch ar ein cyfer ar ffurflen censws. Tir neb ydy o, rhwng rhyw 'uniongrededd' – gair niwlog arall: a fu yna'r ffasiwn beth erioed? – rhwng rhyw 'uniongrededd' honedig a'r anffyddiaeth gyfoes, ddosbarth canol, snobyddlyd bron, a smyg sy'n hydreiddio ein gwlad, yn arbennig felly ymysg y 'deallusion' – honedig eto. Peth digon derbyniol bellach yw dweud eich bod yn 'anffyddwraig', fel roedd hi ers talwm yn beth eitha da dweud fod ganddoch Kyffin ar eich wal.

Mae'r 'uniongrededd' yma a'r anffyddiaeth sy'n cyfateb iddo yn gwbl ddiddychymyg. Mae'r ddeubeth fel ei gilydd wedi cau'r drws yn glep ar y dychymyg. Nid oes gan y naill na'r llall ddim byd mwy i'w ddweud. Mae'r cwbl wedi ei ddweud eisoes.

Tir Neb

Dim ond yn y tir neb y mae'r dychymyg yn bosibl. Lle'r dychymyg ydyw'r tir neb: rhywbeth yn debyg i ddalen wen o flaen awdur, neu gynfas wag o flaen artist. Fe all y dychymyg fynd â chi i leoedd o greadigrwydd enfawr. Fe all y dychymyg fynd â chi ar gyfeiliorn llwyr hefyd, pan mae o'n gweddnewid ei hun i'r llai nag ef ei hun, sef ffantasi. Ac y mae yna wahaniaeth dybryd rhwng 'dychymyg' a 'ffantasi' – trafodwch! Ffantasïol yw'r hyn sy'n weddill o grefydda yng Nghymru heddiw.

Lle Tramps

Lle o ddigartrefydd 'ysbrydol' yw'r tir neb. Nid pererinion sydd yma, ond tramps. Fe ŵyr pererin i ble y mae hi'n mynd. Tin-droi mae tramp. Dwi'n siŵr fod yna lawer o bethau ym mhoced tramp, ond yn sicr i chi, does yna 'run map yna.

Nid yw'r tir neb yn lle cyfforddus, yn enwedig pan mae hi'n stido bwrw. Ond i nifer ohonom ni sydd wedi cerdded allan o'r eglwysi, fyth i ddychwelyd, ac o bethau sy'n edrych yn debyg i grefydd gonfensiynol, fan hyn ydy'r unig le dilys. A dilysrwydd yw'r peth.

Gweler ymatebion i gyfrol ddiweddaraf Aled a Cynog ar dudalennau 10, 11 a 12

Rhagor ar Ysbrydoledd a Chrefydd



I barhau ar y trywydd a osodwyd gan Aled Jones Williams yn yr erthygl flaenorol, mae gan Gethin Abraham-Williams (Cyn-ysgrifennydd Cytûn ac Enfys) gyfrol ddifyr dan y teitl, S*pirituality or Religion? Do we have to choose ?* (ISBN 978 1 8469 4149 8). Mae'n dechrau gyda thrafodaeth ar stori Branwen: 'A Celtic tale with a Gospel meaning'. Dair blynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd *Seeing the Good in Unfamiliar Spiritualities* (ISBN 978 1 8469 499 4).

Dim ond y llynedd y cyhoeddodd drydedd cyfrol, lle mae'n datblygu ei syniadau ymhellach: *Why the Gospel of Thomas Matters: the Spirituality of Incertainties.* Yn honno mae 'na rydd gyfieithiad o Efengyl Tomos, sy'n llawn pethau cyfarwydd ac anghyfarwydd sy'n peri syndod, a chwerthin (ISBN 978 1 78279 929 0).



Tameidiau Tomosaidd

Dywedodd Iesu, 'Os bydd y rhai sy'n eich arwain yn dweud bod Byd Newydd Duw lan yn yr awyr, fe fyddwch chi'n gwybod eu bod wedi camddeall. Dyna lle bydd yr adar yn dod o hyd i'r Byd Newydd! Mae dweud bod y Byd Newydd yn yr awyr mor ddwl â dweud ei fod e dan y môr. Dyna lle bydd y pysgod yn dod o hyd iddo! Nid mewn un man penodol y mae Byd Newydd Duw. Mae e ar gael ynoch chi ac o'ch cwmpas chi.

****

Fydd pobl ddim yn eich deall chi nes i chi ddeall eich hunan. Pan fyddwch chi'n deall eich hunan, fe fyddwch chi'n sylweddoli'ch bod chi'n perthyn i deulu Duw cariadus, ac yn adnabod bywyd Duw ynoch chi. Does 'na ddim tlodi mwy, na methu deall pwy a beth ydych chi.

****

Does a wnelo bod yn fyw neu'n farw ddim oll ag anadlu nag â chyrff meirw.

****

Dywedodd ffrindiau Iesu wrtho, 'Beth fydd yn digwydd i ni yn y diwedd?' Dywedodd Iesu, 'Pam ydych chi eisiau gwybod am y diwedd a chithau ond newydd ddechrau arni? Mae pob diwedd yn dibynnu ar ble ddechreuwch chi. Os ydych chi'n ddigon lwcus i ddechrau yn y man iawn, fe ddarganfyddwch chi fod bywyd yn ddechreuadau i gyd, heb ddiwedd terfynol.'

****

Lle bo dau berson yn cwrdd, rydw i yno gyda nhw. Rwy'n gwmni hefyd i'r rhai sy ar eu pennau eu hunain

****

Dywedodd Iesu, 'Pan ddysgwch chi fod fel plant bach sydd, heb deimlo'n swil o gwbl, yn tynnu eu dillad i gyd a'u gadael yn domen flêr ar lawr, yna fe fyddwch yn ymateb i Wir Bresenoldeb Duw heb swildod yn y byd.'

Chwilio'r Ysgrythurau: Y Daith i Emaus

Enid R. Morgan

(Luc 24 : 13–35)

Stori am yr Atgyfodiad yw'r daith i Emaus – neu felly y tybiwn. Ac mae'n arwain yn aml at ddadl ynglŷn â natur y gŵr oedd mor anodd ei nabod, ac a ddiflannodd mor sydyn. Mae'n calonnau ninnau'n cynhesu wrth ddarllen y geiriau: 'Onid oedd ein calonnau'n llosgi ynom …' Ond nid yw'r ffaith fod y stori'n annwyl a chyfarwydd yn golygu ein bod ni wedi deall ei hamcan hi. Felly, gan gydnabod dyled enfawr i'm hathro diwinyddol James Alison, rwy am agor drws i amgenach dealltwriaeth o Luc 24 :13–35. Mae'n crebwyll ni'n rhedeg mewn rhigolau cynefin, ac yn hynny o beth rydyn ni'n debyg iawn i'r ddau deithiwr digalon a droes eu cefnau ar Jerwsalem. Roedd meddyliau Cleopas a'i gyfaill dienw ynghlwm wrth hen freuddwydion a disgwyliadau.

James Alison

Sut olwg oedd ar y ddau? 'Gwynepdrist', medd William Morgan; 'eu digalondid yn eu hwynebau', medd y Beibl Cymraeg Newydd. Y gair gwreiddiol yw *skuthropoi* – gair anghyffredin a chryf sydd ddim ond yn ymddangos un waith yng nghyfieithiad y deg a thrigain (y Septuagint) o'r ysgrythurau Hebraeg. Mae Joseff, wrth annerch ei gyd-garcharorion, sef y trulliad a'r pobydd, yng ngharchar, yn gofyn pam maen nhw'n *skuthropa.* Mae'r ddau'n methu gwneud synnwyr o'u breuddwydion a sylw Joseff wrthynt yw: 'Onid i Dduw y perthyn dehongli?'

Pan yw awdur yn defnyddio gair prin o'r Hen Destament, gallwch fentro'i fod fel petai'n rhoi golau'n fflachio i dynnu'ch sylw. Dyma ddau berson a ddisgrifir yn *skuthropa*, mewn dryswch a digalondid, ac wele drydydd person yn ymddangos ac yn cynnig dehongliad iddynt ac yn mynnu mai dehongliad Duw ydyw. A dyna sy'n digwydd ar y ffordd i Emaus – bydd y ddau'n derbyn dehongliad ac yn gwybod mai dehongliad Duw yw e.

Dau bwynt arwyddocaol arall. Mae 'na bedwar man gwahanol sy'n mynnu mai eu pentre nhw yw Emaus – ond wyddon ni ddim ble roedd e. Roedd Luc yn berffaith abl i fod yn ddaearyddol fanwl am ynys Malta. Felly, pam mae e mor ddryslyd o amhendant yn y fan hon? A phwy yw cyfaill Cleopas?

Awgrymwyd mai Mrs Cleopas yw – ond mae 'na gyfeiriad yn nes ymlaen at 'rai gwragedd yn ein plith', ac mae'n arfer i beidio ag enwi'r rheini. Dyma ni â chymeriad heb enw, rhyw *N* o berson, llythyren sy'n rhoi lle i berson penodol mewn dogfen gyfreithiol neu ymbiliau litwrgaidd. *Nomen* pwy?

Ac i ba amcan? Awgrym James Alison yw fod Luc, fel yn y stori am geisio bwrw Iesu dros glogwyn (nad yw'n bod) yn Nasareth, yn awgrymu rhyw ddaearyddiaeth symbolaidd neu ddiwinyddol. Gallai'r cyfarfyddiad hwn ddigwydd yn unman, mewn rhyw Gwm-sgwt o le, rhyw Lanunman. Gallai'r un peth fod yn wir am gyfaill dienw Cleopas. Mae'n bosibl mai *chi* neu *fi* a wahoddir i gymryd ein lle yn y stori. Gallwn ninnau gamu i mewn i'r stori, a gwrando'n daer a chrefu ar y gŵr dierth i aros, ein calonnau ninnau ar dân wrth wrando'r dieithryn hwn.

Dieithryn, ie; *paroikeis*, medd y testun. Nid dieithryn yn gwmws, ond 'trigiannydd' dros dro sy ddim yn 'perthyn', ddim yn 'un ohonon ni' – un heb iddo ddinas barhaus, tebyg i Abraham, Isaac, Jacob a Joseff: crwydryn, ymwelydd, mewnfudwr, *migrant*. Dyw'r bachan hwn ddim yn perthyn.

Dywedir bod y ddau yn trafod – efallai y byddai dadlau'n gywirach; *antiballete* yw'r gair (fel yn *antiballistic*). Mae rhywbeth yn cael ei daflu 'nôl a mlaen, yn chwyrn, fel pêl rygbi. Dy'n nhw ddim yn deall beth sy wedi digwydd iddyn nhw, nac i'w breuddwydion na'u gobeithion. Ac yn hytrach nag egluro, mae'r ymwelydd yn gofyn am eu stori, sut maen nhw'n deall pethau.

Parhau gyda'r Daith i Emaus

Enid R. Morgan

Dyma bum llinyn yn eu meddyliau:

- roedd Iesu'r proffwyd wedi eu cyfareddu â'i awdurdod;
- doedd yr arweinwyr crefyddol ddim wedi ei gefnogi, ond yn hytrach wedi ei erlid;
- croeshoeliwyd ef gan y llywodraethwyr Rhufeinig;
- roedden nhw wedi gobeithio mai ef fyddai'r Meseia (eu *Führer*, meddai Gwilym O. Roberts gynt!);
- mae'r gwragedd, na ellir dibynnu ar eu tystiolaeth, yn dweud ei fod yn fyw.

Be wnaen nhw o shwt ddryswch o themâu na ellir eu gweu ynghyd? Y *paroikeis* nad yw'n perthyn sy'n egluro, yn *homilein*, yn sgwrsio ag awdurdod mai fel hyn yr oedd yn rhaid i bethau fod. Mae'n eu harwain ar daith ddethol drwy'r ysgrythurau ac yn gwneud synnwyr newydd o le etholedigaeth, dioddefaint, aberth a lle'r unigolyn sy'n cael ei erlid yn economi ac amcanion Duw. 'Ac onid i Dduw y perthyn dehongli?'

Mae'r *paroikeis* yn diflannu ar doriad y bara. A dim ond ar ôl iddo fynd maen nhw'n ei nabod e. A dyna'n union sut y mae IHWH'n ymddwyn yn ei ymddangosiadau prin i unigolion fel Moses ac Elias yn yr Hen Destament. Ac mae Luc y storïwr, y cyfarwydd hynod grefftus a chynnil, yn rhoi i ni ffordd o ddehongli'r stori fel ymddangosiad nodweddiadol Iawistaidd: un sy'n dod yn dystiolaeth, yn brofiad ac yna'n diflannu, un na allwch chi ddim dal eich gafael ynddo a'i ddefnyddio i brofi dim. Ac wrth wneud synnwyr, wrth ddehongli'r profiadau amryfal na allan nhw wneud unrhyw sens ohonyn nhw, mae'n dod yn eglur nad unrhyw 'fe' yw hwn, ond Ef, a bod yr EF yn YDWYF.

Rydyn ni hefyd y dyddiau hyn yn tra *skuthropoi.* Rydyn ni'n ei chael yn anodd i ddehongli ein cred a'n profiad a'u hystyron. Mae gennym hanner dwsin o themâu ynglyn â'n cyfnod, am Ewrop a'r byd, ein cenedl a'n diwylliant, yn ogystal â'n hanes teuluol a phersonol. Does dim llawer o siâp arnon ni'n dehongli ein stori ein hunain mewn ffordd sy'n gwneud unrhyw sens. Ond rydyn ni'n dyheu am gael tanio'n calonnau ym mhresenoldeb y *paroikeis* sy'n torri bara drosom.

Yna, mae Cleopas yn dychwelyd i Jerwsalem ac yn egluro i'r sêt fawr beth sy wedi digwydd. Ac mae e'n clywed eu hanes nhw hefyd, a'r ffordd y 'safodd yn eu canol hwy ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi'.

Mae'n dweud yr un peth wrthyn ni, *skuthropoi* Cristnogaeth21, a hynny heb ddannod dim o'n methiannau i ni: 'Tangnefedd i chwi.'

(Un o blith sawl dehongliad byw o'r Ysgrythur gan James Alison yn *Y Dioddefus sy'n Maddau*, sydd i'w gyhoeddi yn 2016 gan Gyhoeddiadau'r Gair)

BETH YW HANES CRISTNOGAETH 21?

Sefydlwyd Cristnogaeth 21 yn y flwyddyn 2007, a dilynwyd hynny gyda chreu gwefan a lansiwyd yn swyddogol ar Ragfyr 1af 2008. Denodd hynny gryn sylw ar y radio, ar deledu, yn y cylchgronau enwadol ac mewn papurau dyddiol ac wythnosol. Y bwriad oedd cyhoeddi erthyglau ar wahanol bynciau fel bod modd cael llwyfan i safbwyntiau nad ydynt yn cael sylw yn y papurau enwadol.

Maes o law, dechreuwyd dosbarthu neges wythnosol drwy e-bost i bawb sydd wedi mynegi dymuniad i'w derbyn, sef cyfanswm o tua 250 o bobl i gyd. Dyma'r e-fwletin wythnosol fel y byddwn ni'n cyfeirio ato. Caiff y neges hon ei hysgrifennu gan griw o tua 30 o unigolion sy'n cymryd eu tro i'w llunio, ac mae'r ymateb i'r negeseuon hyn yn gynnes a chefnogol iawn, hyd yn oedd os nad yw pawb yn cytuno â'r cynnwys bob tro. Os hoffech chi dderbyn yr e-fwletin, neu fod yn un o'r awduron, rhowch wybod i ni.

Efallai mai'r cam mwyaf cyffrous ar y wefan oedd agor y **Bwrdd Clebran**, sef fforwm i drafod gwahanol safbwyntiau yn onest ac agored, heb i unrhyw un deimlo ei fod ef neu hi yn cael eu beirniadu am beidio coleddu syniadau sydd, fel arfer, yn perthyn fwy i'r brif ffrwd ddiwinyddol yng Nghymru.

‘Y Storm ar Fôr Galilea’:

Myfyrdod yn seiliedig ar Mathew 8:23–34

(Traddodwyd yn Encil Trefeca, Medi 2015)

Emlyn Davies

Wrth i mi draddodi’r sylwadau hyn, rwy’n ymwybodol iawn ein bod, yn y cyfnod hwn eleni, yn nodi carreg filltir go nodedig yn hanes darlledu. Aeth trigain mlynedd heibio ers darlledu’r rhifyn cyntaf o *From Our Own Correspondent* ar Radio 4, ac mae’n anodd meddwl am unrhyw gyfres debyg sy’n dod yn agos ati o ran ei safon uchel.
Cyfle sydd yma i newyddiadurwyr tramor gael pum munud o ryddid i gyflwyno unrhyw agwedd o’u dewis ar faterion yn yr ardal lle maen nhw’n gweithio. Ac o wrando arnyn nhw, mae rhywun yn ymwybodol iawn o’r peryglon sy’n eu hwynebu yn aml, boed hynny’n wrthdaro milwrol, yn drychineb naturiol, neu’n afiechyd endemig.

Y gwir yw fod eu gwaith yn llawer mwy peryglus erbyn heddiw nag yr oedd ers talwm. Flynyddoedd yn ôl, roedd yna linell flaen amlwg mewn rhyfel, lle roedd y brwydro ar ei waethaf, ac fe wyddai pob gohebydd na ddylid mentro’n rhy agos i’r fan honno. Bellach, nid yw hynny’n wir, ac yn aml iawn gall fod mai’r gohebydd ei hun yw’r llinell flaen.

Dros y misoedd diwethaf daeth hynt a helynt y ffoaduriaid yn hanes llawer rhy gyfarwydd. Clywsom rai o ohebwyr mwyaf profiadol *From Our Own Correspondent* yn dweud eu bod dan deimlad ofnadwy wrth adrodd am hyn i gyd. Cyfaddefodd Lyse Doucet, er enghraifft, y byddai’n crio’n aml, a hynny am ddau reswm gwahanol. Weithiau, sefyllfa anobeithiol y ffoaduriaid, a’r plant yn enwedig, fyddai’n tynnu deigryn i’r llygad, ond dro arall wylo o lawenydd y byddai hi wrth weld caredigrwydd ambell unigolyn tuag at y ffoaduriaid.

Efengyl Mathew

Mae’r ddau hanesyn sydd i’w cael ym mhennod 8 o Efengyl Mathew yn atgoffa dyn o dreialon y ffoaduriaid. Mae’r ofn a’r colli gobaith yn y stori gyntaf, a’r colli urddas yn yr ail stori yn berthnasol i’r hyn welwn ni’n digwydd ledled Ewrop heddiw. Ymhlyg yn y traethu mae yna arweiniad i’n hatgoffa o’n dyletswydd mewn sefyllfaoedd fel hyn.

Darlun Rembrandt

Wrth bori ar y we am luniau i gyfleu’r digwyddiadau yn y darlleniad hwn, fe ddois ar draws delweddau electronig o un o luniau enwocaf

‘Y Storm ar Fôr Galilea’ gan Rembrandt (1633)

Llun gan Amgueddfa Isabella Stewart Gardner yn Boston, Massachusetts

Rembrandt, *Y Storm ar Fôr Galilea.* Erbyn hyn, mae’r llun wedi ennill enwogrwydd dros y byd, oherwydd iddo fo gael ei ddwyn ymron i chwarter canrif yn ôl, ac ni welwyd mohono byth wedyn. Roedd yn arfer bod yn Amgueddfa Isabella Stewart Gardner yn Boston, Massachusetts, ond, yn oriau mân y bore ar 18 Mawrth 1990 daeth dau blismon i’r amgueddfa ym mherfeddion y nos gan honni eu bod wedi clywed rhyw synau amheus yn y cefn. Erbyn gweld, nid plismyn oedden nhw, ond lladron, ac fe lwyddon nhw i gael y gorau ar y ddau warchodwr cyn dianc gyda deuddeg o luniau gwerthfawr tu hwnt a rhai creiriau eraill.

‘Y Storm ar Fôr Galilea’

Manylion y llun

Wrth fanylu ar y llun, mae nifer o bethau yn ein taro ni’n od. Yn y lle cyntaf, mae’r ddelwedd fel pe bai mewn dwy ran. Yn nhu blaen y llong, mae’r storm yn dal i ruo, ac fe welwn y dynion ar y chwith yn dal eu gafael am eu bywydau. Mae dau yn cydio’n dynn yn y rhaffau sy’n rheoli’r hwyliau, dau arall yn gafael yn yr hwyl ei hun, ac un arall bron â diflannu dan y don. Y rhain, efallai, yw’r pysgotwyr profiadol ymysg y disgyblion, yn gwybod sut i drin cwch. Ond yng nghefn y cwch, mae popeth yn dawel. O leiaf, does dim tonnau’n golchi drostyn nhw. Mae’r un yn y crys coch yn amlwg yn sâl môr – rhywun fel Mathew efallai, y casglwr trethi oedd wedi arfer ennill ei fara y tu ôl i ddesg, heb fod yn gyfarwydd â hwylio ar Fôr Galilea mewn storm. Ond mae’n amlwg bod Rembrandt yn ceisio dweud rhywbeth wrthyn ni am y sefyllfa, sef bod yna loches i’w chael wrth draed yr Iesu er mor arw yw’r storm.

Y peth arall od yw hyn: o gyfrif y personau yn y cwch, fe welwn ni bedwar ar ddeg o bobl ar y bwrdd, sef Iesu, deuddeg o ddisgyblion, ac un arall. Pwy yw’r un ychwanegol, tybed? Y farn ymhlith yr arbenigwyr yw mai Rembrandt ei hun yw hwn. Roedd gan yr arlunydd ddau obsesiwn, sef peintio hunanbortreadau a pheintio delweddau o wyneb Iesu Grist.

Yma, gosododd ei hun yn y canol, yn edrych allan arnom ni. I rai, mae hynny’n llawn symbolaeth, sef ei fod rhwng dau fyd: weithiau yn y storm ac weithiau yn y tangnefedd, fel pob un ohonom ni efallai; weithiau’n hyderus, weithiau’n ofnus; weithiau’n llawn ffydd ac weithiau’n llawn amheuon.

Dameg gyfoes

Rwy’n hoffi’r dehongliad fod llun enwog Rembrandt yn cyfleu neges bwysig i ni. Mae’n ein hatgoffa nad digwyddiad hanesyddol yw’r storm, ond dameg am dreialon bywyd sy’n dweud bod stormydd yn digwydd yn gyson, a ninnau yn eu canol. A neges yr Iesu oedd nad y cawn ni’n hamddiffyn a’n gwarchod i osgoi’r stormydd, ond yn hytrach y cawn ni nerth i oresgyn drwy roi ein hymddiriedaeth yn y gwerthoedd a ddangoswyd ym mywyd yr Iesu.

Gwlad y Geraseniaid

Mae Mathew’n mynd yn ei flaen i adrodd amdanyn nhw’n cyrraedd yr ochor draw, sef y tro cyntaf i’r Iesu fentro allan o’i wlad ei hun, a rhagflas o fynd â’r efengyl at y cenedl-ddynion. Maen nhw’n mentro allan o gylch eu cyfforddusrwydd, ac yn glanio yng ngwlad y Geraseniaid lle y gwelson nhw’r dyn gorffwyll rhwng y cerrig beddau yn bloeddio a bytheirio. Gwelwn Mathew’n rhoi sylw amlwg i’r ffaith fod Iesu’n gofyn iddo am ei enw, ac wedi hynny mae’n tynnu’r cythreuliaid allan o’r dyn a’u bwrw i’r moch sy’n neidio dros y dibyn i’r môr.

Pan ddaw pobol y dref yno i weld beth sy’n digwydd, maen nhw’n canfod y gŵr yn iach, yn ei bwyll ac wedi ei wisgo. Mae ganddo enw, mae ganddo ddillad ac mae ganddo hunan-barch.

A mynd yn ôl at *From Our Own Correspondent* fe soniodd Lindsay Hilsum, Golygydd Newyddion Tramor C4 News, ei bod wedi cael ei beirniadu’n hallt gan rai pobl yn ddiweddar wrth adrodd am hynt a helynt y ffoaduriaid. Derbyniodd negeseuon sarhaus a bygythiadau ffiaidd. Y rheswm oedd ei bod wedi dangos plant a theuluoedd, ac roedd hynny wedi cythruddo rhai pobol am ei bod hi’n *dyneiddio’r* sefyllfa. ‘Because I *humanised* the situation’ oedd ei geiriau hi.

Ac onid dyna a wnaeth Iesu Grist ym mynwent y Geraseniaid? Hiwmaneiddio’r sefyllfa. Rhoi enw i’r dyn gwallgof; dangos parch tuag ato. A phan ddaeth pobol y dref yn ôl, roedd wedi ei wisgo. Ei wisgo â beth, tybed? Ei wisgo â gofal a chonsýrn a ffydd. Cafodd ei urddas yn ôl. Dyn yn gwisgo Crist amdano.

Her i ninnau

Dyna’r her i ninnau. Cynnal gobaith y ffoaduriaid am fyd gwell yn eu cynefin eu hunain, drwy ddatrys eu problemau yn y gwraidd, ac o wneud hynny, rhoi eu hurddas yn ôl iddyn nhw. A lle nad yw hynny’n bosibl, cynnig ymgeledd a brawdgarwch iddyn nhw mewn ffordd gwbl ymarferol, i’w helpu i oresgyn y storm.

“Unigryw Gymreig ar y naill law, ac yn gwbl ryngwladol ei sylwedd ar y llaw arall”

Sylwadau un o selogion Cristnogaeth 21 ar *Duw yw’r Broblem*

Anaml iawn y daw campwaith o’r wasg Gymraeg sydd yn unigryw Gymreig ar y naill law, ac yn gwbl ryngwladol ei sylwedd ar y llaw arall.

Yn *Duw yw’r Broblem* mae dau ffigwr blaenllaw yn y Gymru gyfoes wedi dod at ei gilydd i lunio cyfrol onest ac ymchwilgar ar y cyd ar fater sydd yn dwysbigo’r ddau awdur – pwy neu beth yw Duw?



Ydy Duw hyd yn oed yn ‘bwy’ neu’n ‘beth’? Gosododd Richard Dawkins, Sam Harris ac eraill fodolaeth Duw ’nôl ar ganol yr agenda athronyddol a’r meddwl poblogaidd gan roi lle blaenllaw iawn i’r bod mawr ar y cyfryngau cymdeithasol a thorfol. Mae nifer fawr o Gristnogion wedi honni nad ydyn nhw’n teimlo dan fygythiad gan athrawiaethau Dawkins a Harris, gan ddweud, “Dyw eu dadleuon ddim yn effeithio arnaf i, achos dwi ddim yn credu yn y math o Dduw y maen nhw yn ei herio.” Yn y llyfr hwn, nid anffyddwyr o fyd gwyddoniaeth neu roc a rôl sy’n codi’r cwestiynau mawr, ond dau unigolyn a fu’n ddiogel o fewn pabell fawr yr eglwys Gristnogol yng Nghymru dros yr hanner canrif diwethaf.

Mae Aled a Cynog am yn ail yn distyrbio’r darllenydd wrth drafod heriau am Dduw sydd yn real, mi dybiaf, i bob un ohonom sydd yn edrych o’r tu allan i lens sengl dogma gaeth.

Mae’r dramodydd talentog a’r cyn-offeiriad Aled Jones Williams yn agor y ddadl gydag ambell osodiad sy’n peri i’r darllenydd werthfawrogi dwyster yr her bersonol y mae Aled yn ei hwynebu. Dywed yr awdur, “Profiad o ‘Dduw’ sydd gennyf. Nid syniad, nid haniaeth, nid cred, nid confensiwn. Profiad sydd ynghlwm wrth y defnydd o’r gair yn fy mywyd.” Ac aiff ymlaen i ddweud, “Mae’n amhosibl i mi fod yn anffyddiwr. Fel y mae’n amhosibl i mi beidio â siarad Cymraeg.” Ei gam nesaf yw holi a yw Duw yn “fwy na gair”? Datgloi grym geiriau cyfarwydd yw un o’r heriau amlycaf, mi dybiaf, wrth i Aled awgrymu nad gwrthrych neu enw yw Duw, ond ei fod yn bodoli fel “berf”. A dyna’r drws wedi ei agor i ehangu teithi meddwl ystyrlon a dwys AJW. Mae ffiniau ein geirfa yn rhy gyfyng i ddisgrifio’r anymwybod mwyaf, ond mae ein profiad, ein teimladau a’n hemosiwn yn gallu dechrau ein symud ni at deimlo rhywbeth o’r beth bynnag yw. Wrth nodi’r anhawster a grëir gan yr angen i ddefnyddio geiriau i ddisgrifio “Duw”, awgryma AJW mai ffwndamentaliaeth yw’r “ymgais gyfoes ... i geisio iaith hawdd, rwydd a phlaen i sôn am ‘Dduw’ ”. Tybiaf fod y rhan fwyaf ohonom mewn perygl o gael ein hystyried yn ffwndamentalwyr anfwriadol. O’r fan honno, defnyddia Aled Jones Williams gynfas eang i’w archwiliad ac, fel gyda’i ddramâu, aiff â’r darllenydd ar daith onest, agored, ddynol, ddeallus a sensitif. Mae’n daith werth mentro arni.

Safbwynt Cynog

Daw awdur arall y gyfrol, Cynog Dafis, at ei Everest ddeallusol o berspectif tra gwahanol i Aled. Yn rhannol, ymryson ag etifeddeg ei ffydd a’i fagwraeth mewn Cristnogaeth agored a wna Cynog. Yn blentyn y Mans, ac yn ffyddlon i’w gefndir gydol bywydau ei rieni, daeth fel llawer un arall wyneb yn wyneb â’r her o orfod gweithio’i ‘grefydd’ allan drosto’i hunan tra oedd yn ddyn ifanc. Dros gyfnod hir mae’r naratif Cristnogol yn para i gynnig cyfeiriad i’r awdur, ond mae’r her o amgyffred “Duw” yn un barhaus.

O'r sefyllfa honno y datblyga Cynog ei gyfraniad yntau i'r llyfr. Yn ei benodau ceir dadansoddiad ysgubol o Gymru'r ugeinfed ganrif – oes yr Argyfwng Gwacter Ystyr. Cawn benodau'n crisialu datblygiad cyfnod allweddol o athronyddu a diwinydda yn y Gymraeg, pan aed i'r afael â'r creisis modern, a phan oedd y byd Cymraeg ar flaen y gad yn hyn o beth. Tynnir J. R. Jones a T. Gwynn Jones, Tegla, Dewi Z. a T. Rowland Hughes at ei gilydd, ynghyd â Feuerbach a Freud. Yma, ceir naratif taclus iawn o'r cawdel o ddatblygiadau diwinyddol-athronyddol-llenyddol Cymraeg a aeth at hanfod y drafodaeth am fodolaeth neu anfodolaeth Duw, a'r cwestiynu pwrpasol a fu ynglŷn â natur y Duw/Duw nad yw'n bod, hwnnw.

Deialog a fu ar goll

Yr hyn sydd yn gwneud hwn yn llyfr unigryw yw ei fod yn mynd i'r afael â theithi meddwl a dadleuon mwyaf ein hoes – rhai unigolion fel Karen Armstrong, A. C. Grayling ac Alain de Botton – a'u cydosod â chyfraniadau o sylwedd o lenyddiaeth Cymru o'r ganrif ddiwethaf. Trwy wneud hynny mae'r ddau awdur, yn heriol a didwyll, yn agor ffynnon newydd i'r byd Cymraeg i'n galluogi i gynnal deialog ddeallus â ni ein hunain. Mae hon yn ddeialog a fu ar goll, i bob pwrpas, ers colli J. R. Jones a Dewi Z. Phillips. Am ein bod yn nabod natur magwraeth, cefndir a geirfa'r ddau awdur, rywsut mae dilyn eu brwydrau yn fwy agos atom na rhai'r unigolion o'r tu allan i Gymru, fel Gretta Vosper (*With or Without* God) neu Mark Vernon (*After Atheism: Science, Religion and the Meaning of Life*).

Mae *Duw yw'r Broblem* yn drysorfa ddeallus a didwyll iawn i'n hoes ni, a thra bo'r themâu yn rhai 'global', mae hanfod y gyfrol yn dod o'r profiad Cymreig. Tipyn o gampwaith.

Morris Morris yn rhoi croeso i

Duw yw'r Broblem

Bu hir ddisgwyl am y gyfrol hon, a da dweud na chefais fy siomi'r un mymryn wrth ei darllen. Ar yr olwg gyntaf, cawn ein taro gan waith cymen Gwasg Carreg Gwalch yn paratoi cyfrol mor ddeniadol, ac yna mae'r clawr ...! Ie, y clawr yw'r unig ddirgelwch i mi, gan fod enw'r gyfrol ynghyd â'r cartŵn lliwgar yn beryg o gamarwain y sawl fyddai'n prynu'r gyfrol gan feddwl mai tipyn o herio a thynnu coes crefyddol sydd ynddi! Dim o'r fath beth. Mae'n gyfrol sylweddol, uchelgeisiol hyd yn oed, sydd yn ymrafael â'i maes yn drwyadl, ac yn gwneud hynny mewn ffordd hynod afaelgar.

"os oes beirniadaeth garedig, nid yw'n fwy na bod y bennod wedi dirwyn i ben yn rhy fuan"

Aled yw awdur y bennod gyntaf, ac os oes beirniadaeth garedig, nid yw'n fwy na bod y bennod wedi dirwyn i ben yn rhy fuan. Mae'r gerdd agoriadol yn gampwaith tyner, a'r bennod sy'n dilyn yn ddeifiol ar brydiau ond yn farddoniaeth drwyddi draw. Mae'n feistr ar drin geiriau, ac yn cyflwyno'i brofiad ysbrydol mewn ffordd gwbl ddiffuant, gan warchod gwerth y trosgynnol, tra'n ymwrthod yn onest â'r goruwchnaturiol ...'A yw "Duw" yn bod? Wrth gwrs. Nid fel "gwrthrych". Nid fel "enw". Ond fel "berf".' Efallai fod dyfyniad fel hwn yn dangos nad yw pennod Aled bob amser yn hawdd, ond ei bod yn bosib oedi gyda phob brawddeg i ganiatáu iddi ei dylanwad llawn.

Mae gweddill y llyfr, y gyfran fwyaf ohono, yn gynnyrch meddwl praff ac ymchwil arwrol 'mab y pregethwr', sef Cynog Dafis.

(Parhad ar dudalen 12)

Adolygiad Morris Morris o

Duw yw'r Broblem

(Parhad o dudalen 11)

Gellid yn hawdd ei gymeradwyo yn unig fel crynhoad hwylus o gynnyrch ystod eang o awduron ar faes cymhleth bodolaeth Duw a hygrededd crefydd.

Mae nifer yr awduron y cyfeirir atynt yn hynod, ac nid pobl sy'n cynhyrchu llyfrau poced ysgafn mo'r rhain, ond meddylwyr blaengar y mae angen amser a chryn amynedd i dreiddio i'w gwaith. Yn hynny, mae llafur a chyfraniad Cynog yn gymwynas enfawr â'r sawl sydd â diddordeb yn y maes.

a bonheddig, er ei fod maes o law yn gorfod anghytuno â llawer o'u casgliadau. Noder hefyd nad yw yn brin o weld gwendidau amlwg yn nadleuon ac ymagwedd Dawkins hefyd.

Pe gofynnid i mi gloriannu prif gryfder y gyfrol tu hwnt i'r hyn ddywedais eisoes, rwy'n sicr mai'r peth amlycaf fyddai na theimlais ar un dudalen fod yna ymagwedd bregethwrol, 'efengylaidd', i geisio fy ennill i ryw safbwynt hoff gan yr awduron. Roedd y cyflwyno bob amser yn gadarn ond yn hynod ddiymhongar hefyd, heb fyth syrthio i'r gwter ddilornus ac ymosodol y mae Richard Dawkins yn llithro iddi yn rhy aml! Na, gwŷr bonheddig yw'r awduron hyn, ac mae hynny'n gaffaeliad mawr wrth

Cynog Dafis

Mae'n bwrw golwg dros waith ambell awdur o Gymro sydd wedi codi cwr y llen ar ei amheuon personol, megis T. Gwynn Jones a Tegla, neu wedi ceisio gwthio'r llong ymhellach i'r dŵr, megis J. R. Jones. Ond ni chyfyngwyd ei orwelion i'n gwlad fach ni, gan i ddadleuon Richard Dawkins gael lle amlwg a haeddiannol yn y gyfrol. Yma y gwelir Cynog ar ei orau, sef ei fod yn medru crynhoi a chyflwyno dadleuon awduron eraill, heb eu derbyn yn wasaidd na chwaith eu beirniadu'n ddidrugaredd. Daw hynny i'r amlwg yn gliriach fyth pan aiff ati i drafod cyfraniad pobl megis John Houghton a Richard Swinburne, gan roi iddynt ofod teg a chyflwyno'u safbwynt mewn ffordd werthfawrogol i lawer darllenydd gael ei arwain i dir newydd, anghyfarwydd ac anghysurus.

Amheuon am y clawr

Rhaid dweud drachefn, serch hynny, fod natur y clawr yn debyg o ddenu ambell ddarllenydd fydd yn torri ei galon cyn cyrraedd y bennod olaf. Ni wn yn iawn faint o drafod synhwyrol sydd ar grefydd bellach, ac fe ymddengys i mi fod yn rhaid wrth fesur o ddiddordeb yn y maes, a mesur hefyd o ymwybyddiaeth o gynnyrch y gwahanol awduron y cyfeirir atynt, i dderbyn y fantais lawn o'r gyfrol ryfeddol hon.

Diwedd … a dechrau.

Ar ddechrau Ebrill eleni daeth y cylchgrawn *Third Way* i ben.

O fewn yr un mis, ymddangosodd *Agora*.



Fe lansiwyd *Third Way* ar 13 Ionawr 1977 gyda'r slogan 'Towards a Biblical Word View' ac er mai'r meddwl efengylaidd oedd tu ôl i'r cylchgrawn, roedd un o'r erthyglau yn y rhifyn cyntaf yn awgrymu'r hyn oedd i ddod. Ronald Sider oedd yr awdur a phennawd ei erthygl oedd 'The weakness of evangelical ethics'. Roedd Sider yn un o ladmeryddion Cyfamod/Comisiwn Lausanne a oedd i arwain y Mudiad Efengylaidd o gulni'r pwyslais unigolyddol.

Fe newidiodd slogan *Third Way* dros y blynyddoedd, e.e 'Y byd cyfoes drwy lygaid Cristnogol', 'Ffenestr ar y byd', 'Meddwl tu allan i'r bocs – byw o fewn y Deyrnas', 'Ffydd a diwylliant'. Canlyniad hyn oedd i *Third Way* ddod yn llais Cristnogol goleuedig, yn ymwneud â phob agwedd o'r diwylliant cyfoes Seisnig. Efallai mai'r elfen fwyaf diddorol yn ystod y degawd olaf yw'r gyfres o'r hyn sy'n cael ei alw yn 'High Profile', sef cyfweliadau treiddgar yn ymestyn dros chwe thudalen. Yr hyn sy'n arbennig yw nad cyfweliadau â Christnogion yn unig yw'r rhain (er eu bod wedi cynnwys rhai o ddiwinyddion pwysig ein cyfnod) ond â phobl o ddylanwad yn eu meysydd ac fel arweinwyr gwleidyddol a chymdeithasol. Mae *Third Way* wedi bod yn enghraifft ardderchog o wrando, dysgu a gwerthfawrogi fod Duw ar waith ymhell tu hwnt i'n ffiniau a'n profiadau cyfyng ni. Fe fydd colli cylchgrawn mor safonol, lliwgar a difyr yn gadael bwlch mawr ym mywydau rhai miloedd o ddarllenwyr. Er pob ymdrech fe aeth y costau ariannol i gynnal cylchgrawn sgleiniog, swmpus a lliwgar (am £4.95) yn ormod i'r cwmni sy'n cyhoeddi *Third Way*, sef Hymns Ancient and Modern (sydd hefyd yn cyhoeddi'r *Church Times* a rhai cylchgronau eraill).

Er na allwn gymharu *Agora* â *Third Way* o ran adnoddau (gwirfoddolwyr fydd yn cynnal *Agora* a phrin yw'r adnoddau), ein gobaith yw y bydd ymddangosiad y cylchgrawn hwn yn gyfraniad i ehangu ac amrywio'r meddwl a'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru.

Fe allwch ddarllen ôl-rifynnau *Third Way* ar www.thirdway.org.uk.

Pryderi Llwyd Jones

Blas o un o gyfweliadau Third Way

Michael Eavis, sylfaenydd, cyfarwyddwr, a gwestai Gŵyl Glastonbury ar ei dir yn flynyddol – cyfweliad yn rhifyn Medi/Hydref 2015:

Cefais fy magu'n Fethodist ac rwy'n dal yn Fethodist. Mae tri neu bedwar gweinidog yn y teulu … braidd yn hen ffasiwn oeddan nhw, ond … roedden nhw'n solet, gadarn. Rydw i'n mynd i'r capel bob bore Sul (mae tua 35 ohonom) ac mae hynny'n arbennig o bwysig i mi … yn arbennig y mawl … Er mai digon amwys yw fy nghred, fe wn mai o'r fan yma y daeth fy sosialaeth ac mae'r gred yn Nuw fel Creawdwr yn fy llonni yn gyson … dim ond gobeithio'i fod yn fy ngwneud innau'n hael a llon fy ysbryd hefyd.

(O.N. Mae'n werth nodi mai'r un oedd yn cyfweld Michael Eavis oedd wedi darganfod yn ei ymchwil fod Glastonbury yn codi £2 filiwn yn flynyddol i elusen, ac nid elusennau mawr fel Oxfam a Greepeace yn unig ond nifer o rai lleol hefyd. Nid yw Michael Eavis chwaith wedi derbyn yn gyson y £60,000 blynyddol, sef ei gyflog fel cyfarwyddwr yr ŵyl)

Hanes Cyffrous y Cwm

Gerald Morgan

Ysgolhaig ifanc hynod o ddysgedig ac effeithiol yw Dr Hannah Jane Thomas, sy'n hanu o Lanelli, a ddaeth i annerch Cymdeithas Lyfryddol Aberystwyth yn diweddar, a hynny'n llwyddiannus iawn. Ymddangosai ei thestun yn dra sych, sef 'Llyfrgell Coleg y Cwm yn Eglwys Gadeiriol Henffordd', ond fe wnaeth yr hanes afael yn y gynulleidfa.

Dechreuodd cenhadon pabyddol Cymdeithas Iesu ymgyrch yng Nghymru a Lloegr yn 1580, ac erbyn 1623 roeddent wedi ffurfio 'talaith' dros y ddwy wlad. Roedd Cymru gyda swyddi Henffordd, Caerloyw a Gwlad yr Haf yn ffurfio un adran, ond yn 1670 rhannwyd gogledd Cymru yn ardal ar wahân.

Mae'r Cwm mewn bro ddiarffordd yn Swydd Henffordd, yn agos iawn at Sir Fynwy, ac ar y ffin rhwng esgobaethau Llandaf a Henffordd. Mantais y safle oedd ei ddiogelwch: roedd yn hawdd dianc oddi wrth awdurdodau sirol ac esgobaethol i diriogaeth arall mewn amser o berygl. Roedd y Cwm wedi ei waddoli gyda thair fferm drwy nawdd Edward, iarll Caerwrangon. Roedd hwnnw yn byw ar ffin arall: disgrifiwyd ef gan Elisabeth I fel 'a stiff Papist [and] a good subject'. Roedd ei gartref, castell Rhaglan, yn ganolbwynt i rwydwaith o gartrefi boneddigion pabyddol, oedd yn selog dros eu ffydd ond ddim yn awyddus i beri trafferth, a fuasai'n peryglu eu teuluoedd a'r offeiriaid oedd yn gweini arnynt.

Byddai hyd at 20 o Iesuwyr yn y Cwm ar unrhyw adeg, a byddent yn mynd a dod yn barhaus er mwyn ymweld â'u praidd a gweinyddu'r offeren iddynt.

Llwyddodd y Cwm i oroesi hyd 1678, pan syfrdanwyd Llundain a'r wlad i gyd gan y Cynllwyn Pabaidd bondigrybwyll. Gwead o gelwyddau oedd y cynllwyn oll, ond roedd yr awyrgylch yn fflamychol tu hwnt. Hyd at hynny roedd yr awdurdodau yn gwybod am y Cwm ond wedi ei anwybyddu. Ond nawr, gorchmynnwyd i Esgob Henffordd, Herbert Croft, fynd yno ac arestio pawb.

Cymeriad diddorol oedd Croft (1603–91). Un o deulu Croft Castle ydoedd, a fagwyd yn Anglican ond a drodd at y Pabyddion am rai blynyddoedd cyn dychwelyd at yr Eglwys Wladol a chodi i fod yn Esgob Henffordd. Erbyn i'w ddynion gyrraedd y Cwm, doedd neb yno (rhybudd o flaen llaw?). Ond roedd allorau a llyfrgell yno, oedd yn ddigon i ddangos sut y defnyddiwyd y lle. Cludwyd y llyfrau i gadeirlan Henffordd, ac yno y maent hyd heddiw, a Hannah Thomas yw'r ysgolhaig cyntaf i'w hastudio ers amser Croft. Llyfrau print ydyn nhw i gyd, yn bennaf mewn Lladin, gyda nifer o rai Saesneg. Argraffwyd nhw rhwng 1503 ac 1676, y rhan fwyaf ar ôl 1595. Daeth y cyfrolau o amryw o wledydd a dinasoedd Ewrop, ond yn bennaf o Gwlen (Cologne), Antwerp a Mainz. Does dim llyfrau Cymraeg yn eu plith, ond fe wyddys y bu rhai yno ar un adeg, a cheir ambell *graffito* yn y cyfrolau, megis 'Duw a digon', a 'Heb Dduw heb ddim'.

Doedd colli Coleg y Cwm ddim yn ddiwedd ar reciwsantiaeth yng Nghymru. Deil ychydig o deuluoedd y Gororau at eu ffydd hyd heddiw, a chafwyd rhai cymeriadau fel y Brawd Ffransisgaidd David Powell, sef y llenor Catholig Dewi Nant Brân, a fu farw yn 1781 wedi blynyddoedd o gynnal yr offeren yn y capel Catholig yn y Fenni. Ond roedd colli'r Cwm yn ergyd drom i'r Hen Ffydd yng Nghymru.

PWT O DUDALEN FACEBOOK

Cristnogaeth 21

Mae Huw Spanner fu'n rhedeg cylchgrawn *Third Way*, yn bwriadu cario mlaen gyda'r cyfweliad misol gyda pherson nodedig, ar ôl cau Third Way. Ei fwriad yw codi TUA £5 y flwyddyn, ac fe gewch chi gopi electronig misol o'i gyfweliad gyda gwleidydd, actores, athronydd neu wyddonydd o bwys. Mae'n swnio fel menter werth ei chefnogi i gael perspectif deallus ar ein mawrion cyfoes. Am fanylion, neu os hoffech gefnogi'r fenter, cliciwch yma -

http://highprofiles.info/

E-fwletin Wythnosol C21

Os gwyddoch chi am unrhyw un a fyddai'n hoffi derbyn e-fwletin wythnosol Cristnogaeth 21, anfonwch air atom: cristnogaeth21@gmail.com neu wasgu'r botwm "Cysylltu" ar ein gwefan.
Mae'r neges wythnosol yn cael ei llunio gan dîm o dros 30 o wahanol unigolion o wahanol enwadau ac argyhoeddiad. Penderfyniad y pwyllgor cyhoeddi'r negeseuon yn ddi-enw.

CODI GWÊN

Cymeriad o bwys cynyddol i Gristnogion blaengar o fewn y byd rhithiol yw David Hayward, neu'r 'Naked Pastor'. Wedi tyfu lan yn Fedyddiwr, ac wedyn yn Bentecostiad, cyn gweithio fel gweinidog yn un o eglwysi rhwydwaith Vineyard, cyrhaeddodd y Parchedig David Hayward ben ei dennyn yn 2010. Gadawodd y weinidogaeth amser llawn, gan deimlo na allai gynnal ei integriti personol tra bo'r eglwys yn dymuno dibrisio cymaint o ddysg gyfoes.

Fodd bynnag, aeth ati i greu gweinidogaeth newydd, a hynny ar y we. Yn ôl yn 2006, roedd eisoes wedi sefydlu gwefan *Naked Pastor*, lle bu'n ysgrifennu a darlunio materion am gyflwr cyfoes crefydd a'r byd. Wedi hynny, aeth ati i greu gwefan yn unswydd ar gyfer ei gelfyddyd (mae'n disgrifio'i hunan fel 'artist graffiti ar waliau crefydd'), a sefydlu ystafell drafod rithiol, sensitif iawn, o'r enw *The Lasting Supper*.

Yn ei waith celf, mae'r *nakedpastor* yn cyhoeddi cartŵn rheolaidd sy'n herio'n syniadau am grefydd, gan hyrwyddo Cristnogaeth gynhwysol, ystyriol, radical a chymunedol. Mae rhai o'i gartwnau yn gallu bod yn *risqué*, ond nid oes amheuaeth am ei gymhelliad clodwiw a'r risg a gymerodd i'w les ei hunan wrth adael y weinidogaeth gyflogedig.



Mae'r *Lasting Supper* yn cynnig gwasanaeth cwbl wahanol. Yno, mae blog achlysurol, ond yn bwysicach na hynny mae'n fan diogel ar y we i unigolion sydd wedi eu heithrio neu sydd ar fin cael eu heithrio o'r eglwys allu ffeindio lloches ysbrydol a chefnogol a rhannu profiadau. Mae'n debyg ei fod wedi creu'r hyn yr hoffai ef ei hun fod wedi ei gael pan adawodd y weinidogaeth gyflogedig chwe blynedd yn ôl. Mae nifer o bobl yn cael eu brifo'n wael iawn pan fyddan nhw'n cyrraedd 'diwedd y lein' gyda'u cartref eglwysig, ac mae'r lle hwn yn fodd i'w helpu i aros o fewn cymuned cred, a hynny drwy'r we.

Am wybodaeth bellach, ewch i: http://nakedpastor.com/ neu https://thelastingsupper.com/

YR ESGOB SPONG YNG NGHAERDYDD

Cofiwch y bydd yr Esgob John Shelby Spong yn dod atom i Gaerdydd ddydd Sul, Hydref 23ain eleni, a hynny ar wahoddiad arbennig gan Cristnogaeth 21. Cynhelir y cyfarfod yng nghapel Salem, Treganna yn ystod y prynhawn. Rhagor o fanylion i ddod.

TRAIS A THYNERWCH

Holi Jerry Hunter am *Y Fro Dywyll*

Mae'r *Fro Dywyll* yn nofel swmpus i ymgolli'n llwyr ynddi. Nofel hanesyddol am gyfnod Cromwell a'r Rhyfel Cartref yng Nghymru a Lloegr, ac yn America yng nghyfnod sefydlu diwylliant piwritanaidd a'r cysylltiad â'r llwythau brodorol. Mae Rhisiart Dafydd yn Gymro gwyllt sy'n byw trwy newidiadau, siomedigaethau, cyffroadau enbyd.

Ble, felly, Jerry Hunter, y mae, neu efallai, beth yw Y Fro Dywyll?

Mae'r tywyllwch a'r goleuni yn natur y canfyddiad. Roedd y Piwritaniaid Prydeinig a ymsefydlodd yn America yn yr ail ganrif ar bymtheg yn hoffi meddwl eu bod nhw'n mynd â 'goleuni' i ganol 'tywyllwch' y brodorion. Ond o weld y bennod hanesyddol honno o ongl arall, mae'n bosibl casglu eu bod nhw wedi diffodd llawer o oleuni wrth drefedigaethu a gormesu cenhedloedd brodorol. Ac mae'r fro dywyll y tu mewn hefyd, fel y gwelir yn y modd y mae Rhisiart yn ymgodymu â'i orffennol ei hun.

Ar ddechrau'r gyfrol rydych chi'n dyfynnu nofel Joseph Conrad, Heart of Darkness. *A i dyma'r thema?*

Yn sicr. O ran y dylanwadau llenyddol sy'n ganolog i wead y nofel, mae'n gyfuniad rhyfedd o waith Conrad a gwaith Morgan Llwyd.

Drwy'r nofel mae'r arwr Rhisiart Dafydd yn cyfeirio at waith Morgan Llwyd ac yn dyfynnu ohono. Cyfeirir hefyd at destun tra gwahanol – Catecism Byddin y Seintiau a ddarparwyd i fyddin Cromwell. Cyflawnwyd erchyllterau gan y fyddin honno, a ystyriai ei bod yn 'offeryn Duw'. O ble mae'r gwenwyn yn dod?

Credaf fod y tensiynau i'w cael ym mywyd a gwaith Morgan Llwyd ei hun i raddau helaeth. Ar y naill law, mae Morgan Llwyd yn trafod crefydd, cymuned a brawdgarwch mewn modd dyrchafol iawn yn ei gyhoeddiadau, ond ar y llaw arall roedd yn teithio gyda byddin Cromwell ac yn cefnogi gweithredoedd treisgar y fyddin honno (neu rai ohonynt o leiaf). Ffrwyth fy nychymyg yw llawer o'r nofel, ond mae'r catecism Saesneg hwnnw yn gyhoeddiad go iawn; mae'n enghraifft amlwg o'r modd y mae crefydd a militariaeth yn dod ynghyd weithiau. Roedd rhai o'r pregethwyr a deithiai gyda byddin Cromwell yn dweud wrth y milwyr eu bod yn 'eglwys wedi'i chynnull', ac mae'r syniad o eglwys arfog yn gwneud gwaith Duw trwy ladd yn erchyll o bwerus.



Ydych chi'n meddwl mai crefydd yw ffynhonell y trais?

Credaf fod yr ateb yn amrywio. Weithiau mae'n bosibl mai crefydd yw ffynhonnell y trais, ac weithiau mae'n cael ei defnyddio fel cyfiawnhad.

Mae crefydd ac awydd am rym gwleidyddol yn faes sy'n perthyn i'r gwrywod ac maen nhw'n ymddwyn yn dreisgar a chreulon. Maen nhw'n llai na dynol. Y rhai dynol ydi trigolion cynhenid America, a chymeriadau benywaidd ymhlith y gwynion sy'n hiraethu am liw, a sbri a chwerthin. Rydych chi'n disgrifio'n dyner iawn y berthynas rhwng Dafydd Rhisiart a'i wraig, Elisabeth. Ond dydych chi ddim yn beirniadu cymhellion neb. Ydych chi eich hun ym mherson Rhisiart Dafydd yn gwrthgyferbynnu dedwyddwch bywyd teuluol a deddfu didrugaredd y bywyd cyhoeddus?

Hoffwn feddwl bod Rhisiart Dafydd yn mynd ar daith ac yn newid. Ceir cipolwg arno yn epilogau'r nofel sy'n awgrymu ei fod wedi symud i gyfeiriad hollol wahanol. Felly, am wn i, mae'r feirniadaeth yn y modd y mae gweithredoedd a gorffennol Rhisiart yn aflonyddu arno. Ond, ie, pan mae'n filwr ifanc sy'n credu'n gryf yn yr hyn a wna, rydym yn ei weld yn mwynhau'r bywyd teuluol hwnnw. Y nod yw mynd â'r holl dynerwch sy'n nodweddu bywyd teuluol delfrydol i weithredoedd cyhoeddus. (Credaf fod llawer o hanes yn dangos bod benywod yn gallach na dynion, rhaid cyfaddef!)

TRAIS A THYNERWCH

Parhau'r sgwrs gyda

Jerry Hunter

Mae Rhisiart Dafydd y Cymro gwyllt yn gymeriad dieithr, yn filwr, yn deithiwr, yn dipyn o ieithydd hyd yn oed. Chi greodd e. Beth ydych chi'n ei hoffi fwya amdano?

Yr hyn dw i'n ei hoffi amdano yw ei ddatblygiad. Mae'n ddiddorol dilyn hynt cymeriad wrth iddo symud o un cyfnod yn ei fywyd i gyfnod arall, ac mae Rhisiart yn teithio'n bell o ran ei daith fewnol, heb sôn am ei daith allanol. Hoffwn feddwl ein bod ni'n ei ddilyn yn ystod y daith honno ac yn ei weld yn newid ond eto'n dal i'w nabod mewn rhai ffyrdd. Mae mynegiant – defnyddio iaith ac adnoddau llenyddol i drafod a dadansoddi'r hyn sy'n digwydd – yn rhan bwysig o'r stori, ac felly mae Rhisiart yn mwynhau defnyddio iaith fel y mae'n mwynhau gwaith o fath arall.

Jerry Hunter

Mae digwyddiadau, a syniadau yn gweu trwy ei gilydd a'r stori'n fyrlymus yn eich tynnu i mewn iddi. Ydi hi hefyd yn stori symbolaidd sy'n rhoi cyfrwng i ni weld y cysylltiad ag erchyllterau'n cyfnod ni?

Mae'n amhosibl i mi feddwl am y cyfuniad hwnnw o grefydd a rhyfel heb feddwl am ein cyfnod ni. A heb gyfeirio at ryfel penodol, mae cyfuniad o grefydd efengylaidd a militariaeth yn parhau i nodweddu llawer o agweddau ar ddiwylliant yr Unol Daleithiau heddiw.

Mae 'na ddisgrifiadau byw iawn o ddigwyddiadau hanesyddol yn y nofel, e.e. y penglogau pydredig o gwmpas tŵr Llundain, digwyddiadau yn y rhyfel, y grefft o drin haearn – ydych chi'n mwynhau'r ymchwil hanesyddol ?

Ydw, mae ymgolli mewn cyfnod hanesyddol wastad yn bleser. Ac fel un sy'n treulio llawer o amser yn ysgrifennu gwaith academaidd, mae ffuglen yn cynnig dihangfa hyfryd. Mae'n braf meddwl am ffeithiau hanesyddol heb gael eich clymu ormod gan y ffeithiau hynny.

Gawsoch chi'ch temtio o gwbl i ddisgrifio cymeriadau hanesyddol blaenllaw o'r cyfnod, e.e. Cromwell neu un o uchelwyr Cymru oedd yn cefnogi'r frenhiniaeth? Neu oes yna nofel arall i edrych ymlaen ati yn y fan honno?

A bod yn gwbl onest, daeth dwy stori ynghyd i greu'r nofel. Roedd stori am gymuned goll o Biwritaniaid yng nghoedwigoedd America wedi bod yn pobi ers blynyddoedd lawer – ac awydd i gyfuno naws *Heart of Darkness* â'r hyn a elwir yn 'American gothic' (gyda'r modd y mae Nathaniel Hawthorne yn trafod Piwritianiaid cynnar America yn ei ffuglen yn ddylanwad amlwg). Ac roedd gen i awydd ysgrifennu nofel am Morgan Llwyd ar ei wely angau. Ond daeth y ddwy stori ynghyd mewn modd digon naturiol rywsut.

O'r Wasg Grefyddol Saesneg

Cylchgrawn crefyddol y Progressive Christian Network

Ymwelwch â:

http://www.pcnbritain.org.uk/

Y BWRDD CLEBRAN

Er ein bod ar fin gweld newidiadau yn niwyg y wefan, bydd y *Bwrdd Clebran* yn dal yn bodoli dan y drefn newydd. Y bwriad gwreiddiol oedd dileu'r *Bwrdd* yn llwyr oherwydd i ni gael cyfnod hesb o ddiffyg ymateb, ond daeth ymateb taer iawn yn gofyn i ni ail-ystyried. Mae'n braf iawn cael ufuddhau i'r ceisiadau lu a pharhau i neilltuo'r gornel hon i gynnal trafodaeth.

Mae dwy ran sylfaenol i'r *Bwrdd Clebran*, sef *Y Fforwm*, a neilltuir ar gyfer ymateb i'r e-fwletin, a'r adran Materion Cyfoes a fwriadwyd ar gyfer unrhyw bwnc o ddewis y cyfrannwr. Rhaid cofrestru cyn cael gadael neges ar y *Bwrdd Clebran*. Ar wahân i'r 250 o bobl sy'n derbyn yr e-fwletin drwy e-bost, bydd nifer o bobl eraill yn dewis darllen yr e-fwletin ar y wefan, sy'n golygu bod ambell i neges yn medru denu dros fil o ymwelwyr. (Rydym yn sôn am "ymwelwyr" yn hytrach na "darllenwyr" am y gall fod mai'r un rhai yn dychwelyd at y neges yw ambell un.)

Ers sefydlu'r Bwrdd Clebran, mae dros 3,000 wedi ymweld â'r dudalen sy'n rhestru'r canllawiau.

PORI MEWN PRINT

Duw yw'r Broblem

gan Aled Jones Williams a Cynog Dafis,

Gwasg Carreg Gwalch, Mawrth 2016 £8.00

Cyfrannodd y ddau awdur bob o ddarn, gwahanol iawn i'w gilydd, i'r gyfrol. Ymson myfyrgar am le ffydd yn ein bywyd cyfoes, gan dynnu ar elfen gref o brofiad personol, yw cerdd ac ysgrif Aled Jones Williams. Lluniodd Cynog Dafis bedair pennod yn cloriannu'r ddadl gyfredol am fodolaeth Duw, ynghyd â thrafodaeth ar y cefndir hanesyddol, yn enwedig yng Nghymru Gymraeg yr 20fed a'r 21fed ganrif.



Mae yma ragarweiniad ar y cyd yn esbonio diben y gyfrol ynghyd â geirda canmolus gan y gwyddonydd Gareth Wyn Jones a'r diwinydd Catrin Williams. Mal Humphreys biau'r cartŵn trawiadol ar y clawr.

(Gweler yr adolygiadau ar dudalennau 10-12)

Iddew

gan Dyfed Edwards,

Gwasg y Bwthyn, Pasg 2016 £9.95

Daeth y nofel yn ail yng Ngwobr Goffa Daniel Owen 2015. Nofel am Iesu Hanes.

MEHEFIN 11eg, 2016

CYNHADLEDD FLYNYDDOL

CRISTNOGAETH 21

CANOLFAN ST PAUL, ABERYSTWYTH

10am- 4pm

THEMA: TYFU-NEWID

Rhagor o fanylion i ddilyn yn fuan

Gwahoddiad i gyfrannu

Does dim angen aros am wahoddiad i gyfrannu i *Agora*!

Os ydych chi eisiau ymateb yn sydyn i rywbeth, anfonwch air at y Bwrdd Clebran ar y wefan (www.cristnogaeth21.org) a pharhau'r drafodaeth yn y fan honno. Os oes rhywbeth yr hoffech chi fanylu arno, neu yr ydych yn awyddus i ddechrau trafodaeth yn ei gylch, neu os buoch yn darllen llyfr difyr, neu'n pori mewn gwefan ddiddorol, fywiog, anfonwch gyfeiriad atom, ac fe ddatblygwn gornel gysylltiadau.

Os oes gennych erthygl neu syniad, anfonwch at Enid (enid.morgan@gmail.com), a gall fod yn rhan o becyn newydd i'r *Agora* nesaf ymhen y mis. Y bwriad yw ychwanegu defnyddiau newydd ac adnewyddu'r cynnwys bob mis. Bydd peth o'r cynnwys yn mynd i archif y gellir mynd ato. Gyda'r rhifyn hwn mae 'na archif sy'n cynnwys erthyglau gan Gareth Wyn Jones a thrafodaeth gan eraill, a gyhoeddwyd eisoes yn *Y Traethodydd*. Gobeithiwn y bydd y cyfrwng digidol yn rhoi ystwythder na ellir ei gael mewn rhifynnau papur. Mae croeso i'r dysgedig a'r direidus, y dadleuol a'r dwys, y gwleidyddol a'r gweddigar.

Diwedd y Gân...

Pan soniwyd gyntaf am ailwampio'r wefan a lansio'r cylchgrawn digidol, mynegodd sawl un eu hawydd i gyfrannu'n ariannol at y fenter. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth hynny mor hael. Does dim rhaid cyfrannu er mwyn medru defnyddio'r wefan na darllen y cylchgrawn, ond os hoffech wneud hynny, anfonwch eich siec at y Trysorydd:

Y Parchg. Allan Pickard, 44 Vaughan Avenue, Caerdydd CF5 2HS

Dylai'r siec fod yn daladwy i 'Cristnogaeth21'. Os gwelwch yn dda, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ar gefn y siec er mwyn i ni fedru eich cydnabod.

Ar y llaw arall, mae modd cyfrannu drwy wneud trosglwyddiad uniongyrchol i'r banc dros y we. I gael y manylion, cysylltwch â ni drwy e-bost i holi: cristnogaeth21@gmail.com

PWT ARALL O GYFWELIADAU

Third Way

Jurgen Moltmann, diwinydd Almaenig, awdur *Diwinyddiaeth Gobaith* (1964), *Y Duw Croeshoeliedig* (1972), *Moeseg Gobaith* (2012) a nifer o gyfrolau eraill – cyfweliad yn rhifyn mis Mehefin 2012:

Yn 1943 yr oeddwn yng nghanol Hamburg, a chatrawd o filwyr o'm cwmpas a miloedd o bobl yn marw yn y storm-dân, pan waeddais ar Dduw am y tro cyntaf: 'Ble rwyt ti ?' ... Ond mae pobl yn parhau i gael eu rhyddhau o nos dywyll yr enaid gan y cariad sy'n gwbwl ddiamod. Felly y digwyddodd i mi wedi nos dywyll y rhyfel yn yr Almaen, ac fe ddigwyddodd mewn tair ffordd. Yn gyntaf, y goeden

geirios yn blodeuo yng ngwlad Belg ym Mai 1945, a minnau'n garcharor rhyfel, ac yn creu ynof ymdeimlad dwfn o fywyd yn dilyn tywyllwch ac oerni carchar rhyfel. Yna, dynoliaeth fawr gweithwyr yr Alban a'u teuluoedd lle bûm hefyd yn garcharor rhyfel. Ac yna, y Beibl a gefais gan gaplan y carchar … a darllen Efengyl Marc yn arbennig. Yr efengyl hon a wnaeth Iesu yn fwy presennol ac yn fwy meidrol, yn fwy nag a wna Efengyl Ioan, er enghraifft. A'i roi'n syml, roedd yr Iesu a welais ym Marc yn fwy o frawd i mi.



Llyfr diweddaraf Vivian Jones, Llywydd Anrhydeddus Cristnogaeth 21.

Ar gael yn eich siop lyfrau leol.

ARCHIFAU

Mae gennym archif helaeth o erthyglau gwerthfawr ar y wefan. Ewch i www.cristnogaeth21.cymru a phwyso'r botwm 'ARCHIF'

Erbyn hyn, mae dros 180 o bobl yn ein dilyn ar Facebook, ac rydym yn ddiolchgar i'r criw bach diwyd sy'n cynnal y presnoldeb hwnnw. Os hoffech chi ymuno â'r grŵp hwn, ewch draw i dudalen Facebook i ymuno yn y sgwrs.